# ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan gynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad perthnasol

## RHAN 3

### Y Bleidlais mewn Etholiadau lle Ceir Gornest

### Y Bleidlais

**Pleidleiswyr sydd ag anabledd neu sy'n methu darllen: marcio pleidleisiau gan y swyddog llywyddu**

**43.**—(1) Caiff pleidleisiwr wneud cais i'r swyddog llywyddu am i'w bleidlais gael ei marcio os yw'r pleidleisiwr—

(a) yn methu, oherwydd dallineb neu anabledd arall, â phleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y rheolau hyn, neu

(b) yn datgan ar lafar nad yw'n gallu darllen.

(2) Pan wneir cais, rhaid i'r swyddog llywyddu, ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio sydd yn yr orsaf bleidleisio pan wneir y cais—

(a) peri i bleidlais y pleidleisiwr gael ei marcio ar bapur pleidleisio yn y modd a gyfarwyddir gan y pleidleisiwr, a

(b) peri i'r papur pleidleisio gael ei osod yn y blwch pleidleisio.

(3) Pan fo pleidlais pleidleisiwr wedi ei marcio yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r swyddog llywyddu nodi'r manylion a ganlyn ar restr a gedwir gan y swyddog llywyddu at ddibenion y rheol hon ("y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu")—

(a) enw a rhif y pleidleisiwr, fel y'u dangosir yn y copïau o'r cofnodion cofrestru, a

(b) y rheswm y cafodd y bleidlais ei marcio.

(4) Yn achos person sy'n pleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr, y rhif sydd i'w gofnodi ynghyd ag enw'r pleidleisiwr yn y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu yw rhif yr etholwr.

(5) Caniateir defnyddio'r un rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu ar gyfer etholiad y brif ardal a phob etholiad perthnasol.

(6) Pan ddefnyddir yr un rhestr, mae cofnod yn y rhestr i'w gymryd fel pe bai'n golygu bod pleidlais y pleidleisiwr wedi ei marcio mewn cysylltiad ag etholiad y brif ardal ac mewn cysylltiad â phob etholiad perthnasol, oni bai bod y rhestr yn dynodi un neu ragor o etholiadau lle cafodd pleidlais y pleidleisiwr ei marcio.

(7) Yn y rheol hon, mae i "y copïau o'r cofnodion cofrestru" yr un ystyr ag yn rheol 40 (gweler paragraff (7) o'r rheol honno).